# Canllawiau Brand Ymgolli

# YMGOLLI.
# GO ALL IN.

01.03.2026

Blwyddyn Darllen Genedlaethol 2026
National Year of Reading 2026

# Cynnwys

Pwrpas
Y berthynas ag Ymgyrch Llywodraeth y DU
Amdan Ymgolli
Beth y mae Ymgolli'n ei Feddwl
Pa Frand Ddylwn i ei Ddefnyddio?
Hunaniaeth Weledol Ymgolli
Teipograffi
Iaith a Thôn Llais
Cysylltu i Egwyddorion Cymru
Templedi a Chymwysiadau
Cymorth a Chysylltiadau

YMGOLLI. GO ALL IN.

# Pwrpas

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys canllawiau penodol i Gymru ar ddefnyddio **Ymgolli** – hunaniaeth Gymreig ymgyrch y Flwyddyn Darllen Genedlaethol (teitl y DU: **Go All In**).

Mae'n cefnogi partneriaid ar draws Cymru i gyfathrebu'n glir ac effeithiol gan sicrhau bod yr ymgyrch yn adleisio'n lleol ac yn gyson â negeseuon ac amcanion traws-DU.

Nod y canllawiau hyn yw:

- Sicrhau defnydd cyson a chywir o hunaniaeth Ymgolli
- Sicrhau cysondeb, o ran neges ac yn weledol, ag ymgyrch ehangach y DU
- Cefnogi ysgolion, dysgwyr, teuluoedd a chymunedau yng Nghymru
- Rhoi eglurder ar fynegiant gweledol a llafar i weithgareddau penodol i Gymru

# Y berthynas ag Ymgyrch Llywodraeth y DU

Mae **Go All In** yn ail-ddyfeisio ystyr darllen heddiw. Yn ganolog i'r ymgyrch yw'r egwyddor "os ti mewn iddo fe, darllena fe", sy'n cyfleu darllen fel rhywbeth sy'n cysylltu'n bwerus i'r pethau a garwch yn barod.

Yng Nghymru mae **Ymgolli'n** adeiladu ar waith a wnaed yn barod i:

- Meithrin cariad at ddarllen a datblygu sgiliau hanfodol i blant a theuluoedd
- Dangos llawenydd a gwerth darllen yn ei holl ffurfiau gan gynnwys llyfrau, e-lyfrau, llyfrau sain a dweud straeon
- Annog cyfranogiad gan ysgolion, teuluoedd, llyfrgelloedd, awdurdodau lleol a grwpiau cymunedol
- Gwella sgiliau darllen holl ddysgwyr Cymru

# Y berthynas ag Ymgyrch Llywodraeth y DU

Mae'r ddwy hunaniaeth yn rhannu'r un:

- Uchelgais strategol
- Gwerthoedd craidd
- Bwriad ymddygiad
- Egwyddorion neges

Gyda **Go All In** yn ymgyrch traws-DU, mae **Ymgolli'n** sicrhau bod yr ymgyrch yn adleisio'n ystyrlon â'r gynulleidfa yng Nghymru.

# Beth y mae Ymgolli'n ei Feddwl

Mae **Ymgolli'n** golygu colli eich hun neu ymollwng yn llwyr i wneud rhywbeth.

Yng nghyd-destun yr ymgyrch hon, mae Ymgolli'n cwmpasu:

- Y pleser o ddarllen er mwyn mwynhad
- Y ffordd y mae darllen yn cysylltu i ddiddordebau personol a bywyd pob dydd
- Pŵer trawsnewidiol straeon a syniadau

Mae Ymgolli'n gwahodd pawb yng Nghymru i gofleidio darllen fel angerdd sy'n cyfoethogi eu diddordebau, dyfnhau dealltwriaeth ac yn eu cysylltu i fydoedd newydd.

YMGOLLI. GO ALL IN.

# Frand

# Pa Frand Ddylwn i ei Ddefnyddio?

YMGOLLI.
GO ALL IN.

GO
ALL
IN.

Defnyddiwch **Ymgolli** pan fo'r weithgaredd:

- Yn benodol i Gymru neu gynulleidfa Cymru
- Wedi'i darparu yn Gymraeg neu'n ddwyieithog
- Wedi'i dylunio i adlewyrchu cyd-destun diwylliannol ac addysgol Cymru

Defnyddiwch **Go All In** pan fo'r:

- weithgaredd yn un draws-DU heb addasiad penodol i Gymru.

YMGOLLI.
GO ALL IN.

# Pa Frand Ddylwn i ei Ddefnyddio?

Mewn rhai achosion, gallai cyd-frandio fod yn briodol, er enghraifft:

- Prosiectau traws-DU wedi eu darparu yng Nghymru
- Cyhoeddiadau cenedlaethol am gychwyn yng Nghymru

Wrth gyd-frandio, dylid sicrhau:

- Hierarchaeth weledol glir
- Bod y ddwy system frandio'n cael eu cymhwyso'n gyson

Cofiwch gyfeirio at y ddau becyn brand bob tro wrth greu deunyddiau cyd-frandio.

# Hunaniaeth Weledol Ymgolli

HAFAN < >

# Logo

YMGOLLI.
GO ALL IN.
Blwyddyn Darllen Genedlaethol 2026
National Year of Reading 2026

YMGOLLI.
GO ALL IN.

Mae'r brand **Ymgolli'n** gweithio gyda'r system **Go All In** ehangach i gadw cysondeb ar draws y DU ac adlewyrchu cyd-destun dwyieithog a diwylliannol Cymru.

YMGOLLI.
GO ALL IN.

**LOGO**
MAINT LLEIAF 40PX
O UCHDER (DIGIDOL)
8MM O UCHDER (PRINT)

YMGOLLI.
GO ALL IN.

**GEIRNOD**
AR GYFER UNRHYW
DDEFNYDD LLAI NA
40PX/8MM

Lawrlwytho

# Loglwm gyda phartner

Yn aml iawn, bydd angen cloi ein logo mewn cwlwm sy'n ei ddangos ochr yn ochr â logo brand arall.

Er mwyn sicrhau bod gan bob brand ddigon o le o'i gwmpas, rydyn ni'n gadael yr un faint o le â lled yr 'O' yn ein logo ni rhwng pob elfen.

Bydd pa logo sy'n dod gyntaf yn dibynnu ar y berthynas y cytunwyd arni – mae'r ddwy drefn mor dderbyniol â'i gilydd.

# Logo




Cofiwch adael digon o le o gwmpas y logoteip **BOB TRO**, yn enwedig pan fydd cyd-frandio gyda logos partneriaid.

## Defnyddio'r Logo

- Defnyddiwch fersiynau cymeradwy o logo Ymgolli'n unig
- Parchwch reolau ar ofod clir a defnyddio lliw

# Logo

**Peidiwch** â gwasgu, anffurfio nac ymestyn ein logo.

**Peidiwch** â lleihau'r eicon i gyfrannedd gwahanaol

**Peidiwch** â newid nac ail-greu onglau'r logo.

**Peidiwch** â gosod brandiau partneriaid yn rhy agos.

**Peidiwch** â gwasgu'r logo i gyfrannedd gwahanol.

**Peidiwch** ag ychwanegu copi i mewn i'r prif logoteip.

## Defnyddio'r Logo

- Ceisiwch osgoi newid y maint neu ddefnyddio effeithiau heb eu cymeradwyo

# Logo

YMGOLLI. GO ALL IN.

YMGOLLI. GO ALL IN.

**Logo wedi'i Animeiddio**

Mae fersiwn symudol o'r logo ar gael ac yn cael ei annog yn gryf oherwydd mae'n dod â'r logo'n fyw

# Paled Lliwiau

Du yw'r lliw amlycaf mwyaf cyffredin ar draws holl gyfathrebiadau'r brand ond nid oes lliw arweiniol yn y paled.

Wrth ddewis lliwiau ar gyfer cyfathrebu, mae'n bwysig ystyried y gynulleidfa darged. (siart lliwiau o ganllawiau'r DU).

Dylid ond defnyddio lliwiau cymeradwy i sicrhau cydlyniant a gallu adnabod y logo.

Lawrlwytho



ENW: DU
RGB: 0 / 0 / 0
CMYK: 50 / 40 / 40 / 100
HEX: #000000
PMS: BLACK C

ENW: COCH
RGB: 255 / 44 / 61
CMYK: 0 / 88 / 82 / 0
HEX: #FF2C3D
PMS: 1788 C

ENW: MELYN
RGB: 255 / 196 / 19
CMYK: 0 / 9 / 100 / 0
HEX: #FFC413
PMS: 109 C

ENW: COCH TYWYLL
RGB: 208 / 0 / 0
CMYK: 0 / 92 / 87 / 25
HEX: #D00000
PMS: 3546 C

ENW: COCH GOLAU
RGB: 255 / 180 / 181
CMYK: 0 / 23 / 26 / 2
HEX: #FFB4B5
PMS: 2337 C

ENW: MELYN TYWYLL
RGB: 236 / 161 / 0
CMYK: 0 / 27 / 100 / 7
HEX: #ECA100
PMS: 124 C

ENW: MELYN GOLAU
RGB: 255 / 232 / 158
CMYK: 0 / 3 / 48 / 0
HEX: #FFE89E
PMS: 2001 C

ENW: GWYRDD
RGB: 2 / 203 / 107
CMYK: 56 / 0 / 58 / 0
HEX: #02CB6B
PMS: 7479 C

ENW: OREN
RGB: 255 / 101 / 12
CMYK: 0 / 61 / 97 / 0
HEX: #FF650C
PMS: 1585 C

ENW: GWYRDD TYWYLL
RGB: 0 / 128 / 82
CMYK: 95 / 5 / 82 / 24
HEX: #008052
PMS: 341 C

ENW: GWYRDD GOLAU
RGB: 163 / 245 / 205
CMYK: 32 / 0 / 30 / 0
HEX: #A3F5CD
PMS: 7478 C

ENW: OREN TYWYLL
RGB: 216 / 52 / 0
CMYK: 0 / 84 / 98 / 0
HEX: #D83400
PMS: 2028 C

ENW: OREN GOLAU
RGB: 255 / 199 / 162
CMYK: 0 / 20 / 30 / 0
HEX: #FFC7A2
PMS: 712 C

ENW: PINC
RGB: 255 / 64 / 170
CMYK: 0 / 78 / 8 / 0
HEX: #FF40AA
PMS: 212 C

ENW: GLAS
RGB: 0 / 185 / 235
CMYK: 75 / 0 / 5 / 0
HEX: #00B9EB
PMS: 306 C

ENW: PINC TYWYLL
RGB: 207 / 0 / 128
CMYK: 0 / 100 / 2 / 0
HEX: #CF0080
PMS: 226 C

ENW: PINC GOLAU
RGB: 255 / 199 / 235
CMYK: 0 / 16 / 3 / 0
HEX: #FFC7EB
PMS: 7422 C

ENW: GLAS TYWYLL
RGB: 0 / 122 / 196
CMYK: 98 / 24 / 1 / 3
HEX: #007AC4
PMS: 7461 C

ENW: GLAS GOLAU
RGB: 138 / 236 / 240
CMYK: 40 / 0 / 14 / 0
HEX: #8AECF0
PMS: 318 C

ENW: PORFFOR
RGB: 115 / 115 / 255
CMYK: 56 / 52 / 0 / 0
HEX: #7373FF
PMS: 2715 C

ENW: GWYN
RGB: 255 / 255 / 255
CMYK: 0 / 0 / 0 / 0
HEX: #FFFFFF

ENW: PORFFOR TYWYLL
RGB: 88 / 70 / 226
CMYK: 76 / 76 / 0 / 0
HEX: #5846E2
PMS: 2725 C

ENW: PORFFOR GOLAU
RGB: 201 / 195 / 255
CMYK: 29 / 25 / 0 / 0
HEX: #C9C3FF
PMS: 270 C


# Delweddau

Dylai'r ffotograffiaeth:


- Portreadu pobl wedi ymgolli yn eu diddordebau a'u hoff weithgareddau drwy ddarllen
- Dangos ystod amrywiol o fformatau a deunyddiau darllen
- Teimlo'n naturiol a didwyll gan gofnodi adegau diffuant o ymgysylltu â darllen
- Adlewyrchu pobl, llefydd a chymunedau go iawn yng Nghymru
- Cofleidio amrywiaeth ar draws oed, cefndir a chyd-destun

Dylai'r delweddau deimlo'n naturiol, cynhwysol a hawdd uniaethu â nhw, gan atgyfnerthu bod darllen i bawb.












Teimlo fel eiliadau diffuant o ymgolli wrth ddarllen

Teimlo'n ffug ac yn ystrydebol

# Teipograffi

# Teipograffi

**Clash Display** yw'r prif ffont a ddewiswyd er mwyn hwylustod a phersonoliaeth.

Yr ail 'ffurfdeip' yw Clash Grotesk Regular a ddefnyddir ar gyfer is-benawdau a chorff. Mae fymryn yn gulach na Clash Display ac felly'n haws ei ddarllen mewn meintiau llai.

Lawrlwytho



# Clash Display Variable - 550

## Ein ffurfdeip grymus, beiddgar ar gyfer penawdau.

AaBbCcChchDdDdddEe
FfFfffGgNgngHhIiJjLlLlll
MmNnOoPpPhphRrRhrh
SsTtThthUuWwYy

123456
7890
!?()

# Teipograffi

Yr ail 'ffurfdeip' yw **Clash Grotesk Regular** a ddefnyddir ar gyfer is-benawdau a chorff. Mae fymryn yn gulach na Clash Display ac felly'n haws ei ddarllen mewn meintiau llai.

Defnyddir **Azeret Mono Light** ar gyfer cynnwys ategol fel capsiynau a manylion ychwanegol.

Rhaid defnyddio ffontiau cymeradwy'r ymgyrch mewn deunyddiau print a digidol.

PWYSAU: ARFEROL

BRAWDDEG GYFFREDIN

## Clash Grotesk Regular

Defnyddio ar gyfer is-benawdau a chopi corff testun.

Rydyn ni'n credu bod darllen yn ffordd rymus o gysylltu gyda'r pethau sy'n bwysig i chi.

RHYNGLINELLU 100%

TRACIO 0

PWYSAU: YSGAFN

PRIF LYTHRENNAU

## AZERET MONO LIGHT

CADW AR GYFER CAPSIYNAU A MANYLION.

TRACIO 50


Lawrlwytho

# Enghreifftiau Teip

Dyma rai enghreifftiau o ddefnyddio teip gyda gwahanol fathau o gyfathrebu.




Poster




Baneri Gwe







Cynnwys Cyfryngau Cymdeithasol

# Iaith a Thôn Llais

# Tôn Llais

Mae **Ymgolli'n** ymgyrch ddwyieithog wedi'i dylunio i roi'r un amlygrwydd i'r Gymraeg a'r Saesneg ar draws y deunyddiau i gyd.

Yng Nghymru, mae'r ymgyrch yn cael ei darparu yn Gymraeg yn gyntaf yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, gan sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei thrin yn ddim llai ffafriol na'r Saesneg ac mai'r Gymraeg yw'r iaith gyfathrebu ddiofyn.

# Egwyddorion Gweithredu Dwyieithog

- Rhaid rhoi amlygrwydd gweledol cyfartal i'r Gymraeg a'r Saesneg mewn deunyddiau dwyieithog.
- Rhaid i'r teipograffi, cynllun a'r hierarchaeth weithio'r un mor effeithiol yn y ddwy iaith.
- Rhaid arddangos nodau a marciau diacritig (e.e. ŵ, ŷ, ê) Cymraeg yn gywir ym mhob ffont cymeradwy.
- Os yw'r gynulleidfa'n caniatáu, mae deunyddiau Cymraeg yn unig yn briodol ac yn cael ei annog.

# Tôn Llais

Mae tôn llais Ymgolli'n cefnogi uchelgais Llywodraeth Cymru i hyrwyddo:

- Darllen ar gyfer pleser
- Dysgu gydol oes
- Hyder diwylliannol
- Cynhwysiant a chyfranogiad

Dylai'r tôn fod yn:

- Positif
- Cynhwysol
- Anogol
- Hyderus
- Cymuned-ganolog

**Siaradwn gyda phobl, nid atynt, a dathlwn ddarllen fel rhan o fywyd pob dydd yng Nghymru.**

# Tôn Llais Negeseuon Enghreifftiol:

**Cyflwyniad dwyieithog Cymraeg yn gyntaf:**
Ymgolli. Darganfod mwy ym mhob tudalen.
Immerse yourself. Discover more on every page.

**Cynhwysol ac anogol:**
Mae darllen i bawb.
Reading is for everyone.

**Gweithredol:**
Agorwch lyfr. Ymgollwch.
Open a book. Immerse yourself.


**Ceisiwch osgoi iaith rhy ffurfiol, sefydliadol neu gyfarwyddol. Dylai'r ymgyrch deimlo'n groesawus, hyderus ac wedi'i gwreiddio mewn cymunedau ledled Cymru.**

# Cysylltu i Egwyddorion Cymru

# Cysylltu i Egwyddorion Cymru

YMGOLLI.
GO ALL IN.

Blwyddyn Darllen Genedlaethol 2026
National Year of Reading 2026




Yng Nghymru, mae'r Flwyddyn Darllen Genedlaethol yn cysylltu i:

- Ymdrechion i wella safonau llythrennedd ym mhob oed
- Cymorth i ysgolion, dysgwyr a theuluoedd i wneud darllen yn arferiad
- Cydnabod llyfrgelloedd fel canolfannau dysgu a chysylltu ein cymunedau
- Cydweithredu â phartneriaid i ddarparu gweithgareddau a digwyddiadau drwy'r flwyddyn

Dylai gweithgareddau'r ymgyrch adlewyrchu'r blaenoriaethau hyn a phwysleisio hygyrchedd, llawenydd, dysgu gydol oes a chyfranogiad y gymuned.

# Templedi a Chymwysiadau

# Templedi

## Enghreifftiau o bosteri A4

Rydyn ni wedi creu nifer o bosteri ymgyrch cyffredinol y gallwch eu lawrlwytho.




Poster

Lawrlwytho

# Templedi

## Templedi digidol y gellir eu golygu


Rydyn ni hefyd wedi creu cyfres o dempledi cyfryngau cymdeithasol ac asedau 'parod i fynd', neu gallwch greu rai eich hun.







1080x1080 - Cynnwys Cyfryngau Cymdeithasol




Llofnod E-bost







1080x1920 - Stori Instagram

# Cymorth a Chysylltiadau

Am gymorth brandio, cwestiynau am yr ymgyrch neu ymholiadau partneriaeth, cysylltwch â thîm ymgyrch **Ymgolli** yn **dysg@llyw.cymru**

YMGOLLI.
GO ALL IN.